

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



**FARMING
connect**
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Cyllidebu porthiant
a Gwneud Penderfyniadau

Gweithio er budd
diogelwch ar y fferm



Cwmni Awdurdodol Ewrop ar
Y Ffer Ddiwydi Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIFYN 17 - Medi /Hydref 2018 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Jack Lydiate

Tynyberth, Abbey-Cwm-Hir, Llandrindod
Safle Arddangos Cyswllt Ffermio



CYFLWYNIAD

Mae Tynyberth yn fferm ucheldir 500 erw sy'n cael ei rhedeg gan Jack Lydiate mewn partneriaeth â'i rieni John a Lynne. Mae 200 erw ar y fferm ei hun a 300 erw arall o ucheldir wedi ei gau heb fod ymhell.

Aeth Jack ati i wella cynhyrchiant ei fferm gan gadw at yr egwyddorion costau isel ac ychydig o lafur. Mae'r mamogïaid yn cael eu gaeafu allan ar silwair a'u troi i mewn yn hwyr yn y gaeaf cyn wyna allan. Byddant yn cael eu troi allan yn fuan ar ôl wyna gyda mamogïaid sy'n magu gefeilliaid yn cael mynd ar well porfeydd ar y fferm. Gwerthir yr wŷn i gyd yn stôr.

Fel rhan o fod yn fferm arddangos Cyswllt Ffermio mae Jack wedi canolbwyntio ar wella cynhyrchiant y ddiadell o famogïaid Mynydd Cymreig trwy:

- ail-hadu dros 20 erw gan ddefnyddio mathau newydd o laswellt a threialu perfformiad codau amrywiol ynghyd â phrofi'r pridd.
- lleihau cloffni o bron i 10% i lai na 2% trwy weithredu'r cynllun cloffni pum pwynt.
- gwell canlyniadau sganio trwy dargedu sgôr cyflwr corff y mamogïaid cyn troi at yr hwrdd a chael gwared ar fwy o stoc.
- symud o system wyna yn gynnar ym mis Mawrth i ddiwedd Mawrth i gyfateb yn

well i dyfiant y glaswellt yn y gwanwyn.

- ymchwilio i'r gyfradd o famogïaid gwag a defnyddio brechiadau i wella'r ganran sganio.
- cyflwyno hyrddod croes i gynyddu maint y stoc cyfnewid.
- lleihau costau porthiant gaeaf trwy ganolbwyntio ar wella ansawdd y silwair a phrofi samplau cyn eu porthi.
- cynnal profion i ddynodi'r triniaethau llyngyr yr iau mwyaf addas ar wahanol adegau o'r flwyddyn.
- cymryd rhan mewn gwaith ymchwil i ddeall presenoldeb malwod y llaid sy'n lletya'r parasit llyngyr yr iau yn well a mapio eu presenoldeb.
- plannu 120 erw o goedwigaeth trwy'r Cynllun Creu Coetir, penderfyniad sydd yn gwarantu incwm tymor hir i'r busnes ac yn gwneud gwell defnydd o dir ymylol.

Mae cynllunio iechyd y ddiadell gyda milfeddyg Jack a chyngor gan ymgynghorydd glaswellt'r wedi bod yn ganolog i'r gwelliannau a wnaed gan Jack, ac yntau â swydd lawn amser, mae'r gwelliannau i gynhyrchiant wedi cael eu gwneud heb unrhyw gynnydd yn y gofynion llafur. Wrth edrych at y dyfodol mae Jack yn awyddus i ddatblygu'r fferm i ddod mor hunangynhaliol â phosibl.

Cynllun Rheoli Johne Cenedlaethol (NJMP)

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Johne's yn fforwm agored i randdeiliaid y diwydiant sydd â diddordeb mewn mynd i'r afael â chlefyd Johne's, a ariennir ar y cyd gan AHDB Llaeth a phrynwyr llaeth.

Datblygwyd Cynllun Rheoli Cenedlaethol Johne's (NJMP) gan y Grŵp Gweithredu ar Johne's i helpu i reoli ac yna leihau nifer yr achosion o glefyd Johne's mewn gwartheg godro trwy ymgysylltu â 80% o brynwyr llaeth a ffermwyr llaeth ym Mhrydain mewn gweithgareddau rheoli Johne's credadwy a chadarn.

Mae'r mwyafrif o gwmnïau prosesu llaeth yn awr yn cymryd rhan/yn aelodau o'r Grŵp Gweithredu Cenedlaethol ar Afiechyd Johne's. Bydd angen i'r holl ffermwyr sy'n cyflenwi aelodau sy'n prynu fod â Chynllun Rheoli Afiechyd Johne's ysgrifenedig yn ei le erbyn 31 Hydref 2018. Bydd y cynllun hwn yn cadarnhau bod ffermwr wedi asesu'r risgiau a statws y fuches trwy brofi ac wedi trefnu'r wybodaeth reoli angenrheidiol a'r adnoddau i weithredu un o'r chwech Strategaeth Reoli.

Mae afiechyd Johne yn afiechyd cronig ar y coluddyn ac os bydd gwartheg sy'n dioddef yn aros yn y fuches yn ddigon hir byddant yn colli eu graen. Fel arfer bydd da byw yn cael eu heintio yn lloeau trwy yfed colostrwm/llaeth wedi ei heintio neu trwy lyncu ysgarthion. Bydd buchod wedi eu heintio yn chwalu biliynau o'r bacteria i'r amgylchedd sy'n achosi heintiad. Ni fydd llawer o anifeiliaid sydd wedi eu heintio yn dangos arwyddion clinigol o'r afiechyd tan yn ddiweddarach yn eu bywyd a dyna pam bod angen profi.

Bydd yr afiechyd yn achosi i'r cynhyrchiant ostwng, yn cynyddu'r gyfradd mastitis a'r cyfrif celloedd a dyna pam y ceir gwared ohonynt yn gynnar.

Bwriad y Cynllun Rheoli Johne Cenedlaethol yw cael ffermwyr i gyfrannu at leihau amllder yr afiechyd:

Y chwe strategaeth reoli yw:

- Bioddigolwch diogelu a monitro – Mae hwn yn addas i fuchesi sy'n cwblhau profion sgrinio addas ac nad oes unrhyw dystiolaeth o'r afiechyd ynddynt.
- Gwell Rheolaeth Fferm - Rhaid i'r cylch rhwng y fuch a'r llo gael ei dorri trwy newidiadau i'r rheolaeth wrth loea, a rheoli colostrwm/llaeth. Bydd y buchod i gyd yn cael eu trin fel petaent wedi eu heintio gan na fydd profi unigol yn digwydd.
- Gwell Rheolaeth Fferm a Phrofi Strategol – Profi buchod unigol i ganfod y buchod sydd wedi eu heintio a'u rheoli i dorri'r cylch rhwng y fuch a'r llo.
- Gwell Rheolaeth Fferm Profi a Gwaredu – Cael gwared ar fuchod wedi eu heintio yn hytrach na'u cadw a'u rheoli.
- Bridio gyda Tharw Pesgi – Dim stoc cyfnewid yn cael eu cadw a stoc yn cael eu prynu o fuchesi gyda lefel is o afiechyd Johne.
- Brechu i Greu Wal – Efallai na fydd brechu yn addas a rhaid cael cyngor gan filfeddyg.

Pam na wnewch chi roi tro ar ein cwrs E-ddysgu – Afiechyd Johne mewn gwartheg. Am ragor o www.actionjohnesuk.org

Ymunwch a Cyswllt ffermio yn ein digwyddiadau gwaredu Johne's o'ch buches rhwng **7:30 - 9:30** yn y lleoliadau canlynol:
03/10/18 - Marchnad Da Byw Rhuthun, Rhuthun
09/10/18 - Elephant & Castle, Drenewydd
10/10/18 - The Halfway Inn, Nantgaredig

Gwylidwriaeth am afiechydon anifeiliaid – pam ei fod o bwys i geidwaid anifeiliaid

Gavin Watkins - Marchnad Da Byw Rhuthun, Rhuthun

Beth yw hyn?

Gwylidwriaeth am afiechydon anifeiliaid yw'r gallu i ganfod bygythiadau i iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd a lles anifeiliaid yn brydlon fel eu bod yn cael eu rheoli cyn iddynt achosi difrod difrifol – naill ai i'r buchesi neu ddiadelloedd unigol neu i sectorau cyfan.

Mae dau brif fath o wylidwriaeth am fygythiadau afiechydon:

1. Gwylidwriaeth Weithredol

yw goruchwyliaeth sy'n chwilio am afiechydon neu heintiadau penodol, er enghraifft, y chwilio am salmonellosis mewn heigiau o ddofednod masnachol, neu samplu BVD.

2. **Sganio** (neu wylidwriaeth oddefol) yw ymchwilio i afiechydon sy'n torri allan sy'n arwain at ddiagnosis sy'n cael eu casglu a'u dadansoddi. Mae gwylidwriaeth weithredol yn gweithio o'r brig i lawr, tra bydd gwylidwriaeth sganio o'r gwaelod i'r brig ac yn cychwyn gyda'r ceidwad da byw, ac yna ei filfeddyg ac yna gwaith diagnostig ac yn olaf dadansoddw'r data (gweler ffigur 1). Bydd yr erthygl hon yn canolbwyntio ar wylidwriaeth sganio.

Pam ei fod yn cael ei wneud?

Mae gwylidwriaeth sganio yn canfod llawer o fathau o fygythiadau o ran afiechydon i ffermydd ac i wledydd cyfan.

Pwy sy'n cael budd?

Pawb! Yr anifeiliaid eu hunain, gan fod gwylidwriaeth yn helpu i'w diogelu rhag y bygythiad o afiechydon. Ffermwyr, gan ei fod yn rhan bwysig o leihau'r risg i'w busnes. Proseswyr a defnyddwyr, gan ei fod yn helpu i sicrhau diogelwch y gadwyn fwyd. Y Llywodraeth, gan ei fod yn cynnal statws iechyd Cymru a'r Deyrnas Unedig sy'n ofynnol ar gyfer masnach ryngwladol, ac yn diogelu iechyd cyhoeddus ac iechyd y buchesi a diadelloedd cenedlaethol.

Beth yw rôl ffermwyr?

Mae gwylidwriaeth lwyddiannus ar afiechydon yn cychwyn gyda cheidwaid anifeiliaid, y mae eu rôl yn allweddol. Mae eich rôl yn cychwyn gyda hwsmonaeth dda a gweld pan na fydd anifeiliaid yn eu hwyliau, naill ai yn dangos arwyddion o afiechydon neu yn perfformio neu ymddwyn yn wahanol. Ar ôl eich ymchwiliad chi eich hun, dylech hysbysu eich milfeddyg, a all archwilio'r anifeiliaid neu gymryd samplau. Eich rôl allweddol arall yw bod


yn ymwybodol o ganfyddiadau gwyllo am afiechyd, yn arbennig yn eich ardal chi, gan y gall y rhain ei gwneud yn ofynnol i chi weithredu i ddiogelu eich anifeiliaid. Er enghraifft mae gwylidwriaeth yn cyfrannu at rybuddion parasitiaid. Cyhoeddir canfyddiadau gwylidwriaeth gan **APHA** <http://apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/scanning/disease-dashboards.htm>. a **NADIS** <http://www.nadis.org.uk/>.

Beth yw trefniadau ar gyfer gwylidwriaeth sganio yng Nghymru?

Mae'r holl filfeddygon yng Nghymru yn rhan o'r rhwydwaith gwylidwriaeth. Mae cyfnewid gwybodaeth yn gyson rhwng milfeddygon a cheidwaid anifeiliaid yn hanfodol, gyda gwybodaeth o samplau gan filfeddygon yn cael ei hanfon i labordai i

gael ei dadansoddi a'i chasglu, a'r tueddiadau yn cael eu pennu. Archwiliad post mortem ar anifeiliaid marw sy'n rhoi mwyaf o wybodaeth am achosion yr afiechyd. Mae tri o gyfleusterau post mortem milfeddygol yn gwasanaethu Cymru - Canolfannau Ymchwilio Milfeddygon APHA yng Nghaerfyrddin a'r Amwythig a Chanolfan Gwyddoniaeth Filfeddygol Cymru (WVSC) yn Aberystwyth. Rhoddir cymhorthdal hael ar gyfer post mortem i'w gwneud yn fforddiadwy. Caiff carcasau addas eu casglu a'u cludo am ddim o ffermydd sydd fwy nag awr o waith gyrru o Ganolfan. Cewch ragor o wybodaeth gan eich milfeddyg, yr **APHA** <http://apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/diagnostic/pme.htm> a'r **WVSC** <http://www.wvsc.wales/>.

Ffigwr 1 -
Y "pyramid
gwylidwriaeth
sganio"



● Crynodeb o Allbwn a Manteision Gwyladwriaeth Sganio

- • Canfod afiechyd hysbysadwy yn brydlon
- • Canfod afiechyd milheintiol posibl
- • Canfod afiechydon endemig sy'n cael effaith ar gynhyrchiant
- • Canfod afiechydon neu fygythiadau newydd yn brydlon a all effeithio ar gymdeithas
- • Canfod bygythiadau 'diogelwch bwyd cemegol' yn brydlon
- • Dynodi bygythiadau i fasnach ryngwladol
- • Cyflawni gofynion statudol cenedlaethol a rhyngwladol o ran rhoi adroddiad am afiechydon
- • Galluogi diagnosis
- • Dynodi problemau lles anifeiliaid
- • Cynnal yr isadeiledd a'r arbenigedd ar gyfer rhaglenni rheoli cenedlaethol
- • Cynnal y cyswllt ag ymarferwyr milfeddygol, ffermwyr a'r diwydiant
- • Dynodi ymateb niweidiol i feddyginiaethau a ddefnyddir mewn anifeiliaid
- • Cynnal y wybodaeth am statws iechyd anifeiliaid, i gynnig arbenigedd
- • Cadw cronfa ddata addas i storio a chael mynediad at wybodaeth gwyladwriaeth filfeddygol
- • Profi'r angen am wyladwriaeth wedi ei thargedu ac ymchwil
- • Darparu banc o samplau neu archif biolegol.

● Rhai enghreifftiau diweddar o ganfyddiadau gwyladwriaeth sganio

- • Syndrom Ysgoth yr Haf mewn lloeau wedi eu diddyfnu
- • Amrywiaeth cynyddol yn y mathau o firws atgenhedlu a resbiradu mewn moch
- • Gwiddon y clafr sy'n gwrthsefyll triniaethau trwy frechiad wedi eu canfod
- • Heintiad gyda llyngyr *Nematodirus lamae* wedi ei ganfod mewn alpacas yn y Deyrnas Unedig
- • Afiechydon adenofiroi mewn cywion brwyler a dodwy
- • Afiechyd gwaedlif cwningod newydd (RHD2) mewn cwningod gwyllt a domestig ym Mhrydain.

Pesgi wŷn ar Trefnant Isaf, Safle Ffocws Cyswllt Ffermio

Lisa Roberts, Swyddog Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio

Gallai gwanwyn caled ac yna haf anarferol o sych fod wedi cael effaith ar berfformiad wŷn, ond mae maethiad da i'r mamogiaid a monitro gofalus ar dyfiant glaswellt wedi talu ei ffordd i'r ffermwyr Ffocws Cyswllt Ffermio, Aled Haynes yn Trefnant Isaf. Mae ei wŷn croes wedi tyfu yn dda hyd eu diddyfnu yn 12 wythnos, gan lwyddo i gynyddu tua 350g a 300g y dydd i rai sengl a gefeilliaid yn eu tro, gan olygu eu bod wedi mynd tu hwnt i'w targed o 30kg wrth ddiddyfnu yn rhwydd.

Roedd y dogn cymysg cyflawn (TMR) a borthwyd y gaeaf diwethaf wedi sicrhau bod y mamogiaid yn cael porthiant o safon uchel yn gyson oedd yn bodloni eu hanghenion. Wrth wŷna roedd cyflwr cyrff y mamogiaid yn dda ac fe wnaethant laetha yn dda, er gwaethaf y tywydd, adlewyrchwyd hyn yn y pwysau 8 wythnos da a gafwyd gan yr wŷn. Nododd Aled hefyd ei fod wedi gallu lleihau gwastraff a bod y mamogiaid yn ymddangos yn hapusach tra'r oeddynt dan do.

Ar ôl diddyfnu arafodd cyfradd dyfu'r wŷn, y gallem ei ddisgwyl wrth i wŷn fynd yn llai effeithlon, ond ar gyfartaledd o 270g/dydd erbyn diwedd Gorffennaf, roeddent yn dal i wneud yn dda. Ond, dangosodd gwaith monitro bod y glaswellt oedd ar gael yn prinhaus ac felly i leihau'r pwysedd pori cyflwynwyd dwysfwyd i rai o'r wŷn. Mae'r cyfrif wyau ysgarthol (FEC) hefyd wedi cael ei fonitro i sicrhau nad oedd y baich o lyngyr yn arafu tyfiant a bod unrhyw driniaethau yn cael eu targedu yn briodol.

Bydd Aled yn parhau i fonitro tyfiant y glaswellt iddo allu cynllunio ymlaen at y gwanwyn nesaf. Un nod allweddol ganddo yw peidio â phori yn rhy fyr oherwydd bod rhaid iddo osgoi tynnu'r ddeilen isaf a fydd yn cael effaith ar faint o laswellt fydd ar gael i famogiaid ac wŷn ar ôl wŷna'r flwyddyn nesaf. Bydd yn ystyried:

- **Chwalu 25gN/ha yn hwyr yn yr haf/dechrau'r hydref.**
- **Rhoi dwysfwyd i wŷn sy'n pesgi neu o bosibl dod â grŵp dan do i'w pesgi.**
- **Gwerthu stoc i leihau'r pwysedd-**
 - Wyn fel wyn stôr
 - Gwerthu mamogiaid/hyrdod
 - Wyn benyw dros ben
- **Rhoi mamogiaid i mewn yn gynnar cyn wŷna**
- **Ail-hadu yn gynnar yn yr hydref gyda chnydau porthiant cynhyrchiol**



**PARTNERIAETH
DIOGELWCH
FFERM CYMRU**



**WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP**



CYDWEITHIO ER BUDD DIOGELWCH AR Y FFERM

**Stopiwch...meddyliwch...cadwch yn ddiogel ar eich fferm
Awgrymiadau i wneud eich fferm yn lle diogel i weithio**



**FARMING
connect**
**cyswllt
FFERMIO**
08456 000 813

Yn estyn gwahoddiad i sesiwn 'ACHUB BYWYDAU A BYWOLIAETH'

Arddangosiadau ymarferol byr a allai eich helpu i leihau'r perygl o ddamweiniau ac anafiadau ar eich fferm.

- Diogelwch fferm cyffredinol, gan gynnwys diogelwch plant
- Trin da byw yn ddiogel
- Gweithio ar uchder
- Defnyddio beiciau cwad yn ddiogel
- Defnyddio peiriannau fferm yn ddiogel – peiriannau codi a thractorau
- Ymdrin â chemegion yn ddiogel

Mae croeso i bawb fynychu:

DYDDIAD	LLEOLIAD	AMSER
Dydd Mercher 24 Hydref 2018	IBERS, Aberystwyth University, Gogerddan, Aberystwyth. SY23 3EE	13:00 – 16:00
Dydd Iau 25 Hydref 2018	Great Tre-rhew Farm, Llanwytherin, Y Fenni, NP7 8RA	13:00 – 16:00

Rhaid archebu lle – ewch i:

www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu ffoniwch **08456 000 813**
farmingconnect@menterabusnes.co.uk



Prawf N-min – Buddiol i'r ffermwyr a'r amgylchedd

Gethin Prys Davies, Swyddog Technegol Cig Coch Gogledd Cymru, Cyswllt Ffermio

Fel rhan o'r prosiect ffermio manwl gywir ar fferm Plas, Ynys Môn, Safle Arddangos Cyswllt Ffermio, mae Arwyn Jones am geisio defnyddio gwrrtaith organig ac anorganig y fferm mor effeithlon â phosibl. Yn hanesyddol roedd lefelau Potasiwm a Ffosffad y pridd yn cael eu mesur gan ddefnyddio'r prawf pridd safonol ac yna roedd nitrogen yn cael ei chwalu ar sail yr argymhellion RB209 ar gyfer y cnwd penodol.

Gyda gwrrtaith nitrogen yn fuddsoddiad blynyddol sylweddol yn y cnydau, roedd Arwyn am wneud yn siŵr ei fod yn chwalu'r lefel gorau posibl o nitrogen. Mae peidio â chwalu digon yn arwain at lai o gynnyrch a chynnwys protein ac mae ei or-chwalu yn arwain at wastraffu arian, crynhoi yn y cnwd a difrod posibl i'r amgylchedd.

Gyda llawer iawn o dail yn cael ei gynhyrchu ar y fferm o ganlyniad i'r fenter besgi bîff, roedd yn awyddus iawn i wybod yn union faint o'r nitrogen yn y gwrrtaith organig oedd yn cael ei chwalu oedd ar gael i'r cnydau yr oedd yn eu tyfu.

Trwy weithio gyda'i agronomegwyr, mae Arwyn yn awr yn defnyddio'r prawf nitrogen-min yn gyson ar gaeau a ddynodwyd ar gyfer cnydau grawn ac india corn porthiant. Mae'r prawf hwn yn dweud faint o nitrogen sydd ar gael ar hyn o bryd yn y pridd, a faint o nitrogen fydd ar gael i'r cnwd yn ystod y tymor tyfu. Cyfrifir yr nitrogen anorganig i'w chwalu wedyn ar sail y canlyniadau hyn.

Mae'r dull manwl hwn wedi golygu bod Arwyn wedi cael syndod dymunol o weld cyn lleied o nitrogen anorganig a brynwyd y mae rhai caeau wedi bod ei angen oherwydd y lefel uchel o nitrogen sydd eisoes yn y pridd.

'Gall caeau cyfagos fod â lefelau nitrogen gwahanol iawn yn y pridd oherwydd yr arferion rheoli yn y gorffennol a hanes y cnydau a godwyd ynddynt. Am gost o £90 am bob cae, mae'r prawf hwn yn cael gwared ar unrhyw waith dyfalu wrth chwalu nitrogen ac mae'n fy helpu i geisio tyfu cnydau yn y modd mwyaf cost effeithiol posibl.'



Cyllidebu Porthiant a Gwneud Penderfyniadau

James Daniels, Precision Grazing Ltd

Mae 2018 hyd yn hyn wedi bod y tymor pori mwyaf heriol yr wyf i a llawer o ffermwyr eraill wedi ei brofi erioed.

Mae cyllidebu porthiant wedi bod yn offeryn hanfodol ac yn rhywbeth y mae Rhidian Glyn, Rhiwgriafol, Safle Arddangos Cyswllt Ffermio, wedi bod yn ei ddefnyddio trwy fesur y gorchudd ar ei fferm ar gyfartaledd trwy ddefnyddio mesurydd plât yn fisol a chymharu hyn â'i gynllun fferm a grëwyd gan ddefnyddio rhaglen o'r enw FARMAX. Fedrwyd chi ddim rheoli'r tywydd ond cynharaf yn y byd y gallwch chi weld nad yw pethau yn mynd yn ôl y cynllun mwyaf yn y byd o ddewisiadau sydd gennych.

Yn y system pori heffrod roedd y gyllideb bwyd yn dangos, er gwaethaf ymddangos fel petai gormodedd o laswellt, roedd y tyfiant yn disgyn dan y galw (50kgDM/ha), felly fe wnaed y penderfyniad i dorri rhai o'r padogau yn silwair. Galluogodd hyn i hyd y cylchdro gael ei gynyddu i roi 50 diwrnod o orffwys gan gynnal y bwyd i'r heffrod gyda'r cynnydd pwysau byw dyddiol ym Mehefin yn 1.15kg/dydd.

Wrth i gyfraddau twf y glaswellt barhau i ostwng gyda'r tywydd sych, defnyddiwyd 11 erw o dir ail doriad silwair i ymestyn y cyfnod gorffwys a sicrhau bod yr heffrod yn cynnal y bwyd yr oeddynt yn ei gymryd yn ystod y cyfnod 6 wythnos hefo'r tarw. Cyflwynwyd porthiant dwysfwyd ar 1.5kg/hd/diwrnod yng nghanol Gorffennaf i ategu at y borfa.

Daeth y glaw ar ddiwedd Gorffennaf â rhywfaint o ryddhad gyda phorfa sy'n cael ei bori ar gylchdro gyflymaf i ymateb. Y pwyslais erbyn hyn yw cynyddu'r gorchudd ar y fferm yn raddol er mwyn cynyddu'r hyn y mae'r heffrod yn ei fwyta, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd eu pwysau targed, bydd y porthiant ategol yn parhau nes bydd y tyfiant yn cyrraedd yr hyn sydd angen.

Mae'r flwyddyn hon yn mynd i ostwng elw'r fferm oherwydd y costau porthiant uwch a'r gostyngiad mewn cynhyrchiant i bob hectar. Felly mae'n hanfodol iddo beidio â chael effaith negyddol ar gynhyrchiant y flwyddyn nesaf.



Effeithlonrwydd porthiant

Canolfan cyfnewid gwybodaeth


Cyswllt Ffermio

Pam ei fod yn bwysig?

Gall cynhyrchiant cig a llaeth gynyddu trwy ddewis anifeiliaid sy'n defnyddio eu porthiant yn fwy effeithlon ac wrth wneud hynny, hefyd gyflawni amcanion newid hinsawdd ar gyfer rhyddhau llai o fethan. Mae effeithlonrwydd porthiant anifeiliaid sy'n cnoi cil yn mynd i fod yn faes hanfodol i ganolbwyntio arno yn y dyfodol.

Beth yw hyn?

Mae effeithlonrwydd porthiant yn nodwedd o ran pa mor dda y mae anifail yn defnyddio egni o'r porthiant i gynhyrchu – yn ei hanfod pa mor dda y mae egni gros (GE) porthiant yn cael ei drosi yn egni net (NE) gweler blwch 1. Mae ymchwil ar hyn o bryd yn ceisio gwella trosiant egni'r porthiant yn yr anifail, yn bennaf trwy eu potensial genynnol o ran effeithlonrwydd porthiant (FE). Mesurir effeithlonrwydd porthiant fel arfer o ran porthiant gweddilliol a gymerir, (RFI) felly bydd gan anifail â FE uchel RFI isel. Dangosodd ymchwil diweddar bod heffrod biff RFI isel, er enghraifft, yn cymryd 6% yn llai o borthiant na heffrod RFI uchel - yn syml maent yn gallu treulio yn well. Mae angen rhagor o ymchwil i weld a oes cysylltiad rhwng hyn â'r boblogaeth ficrobaidd yn y rwmen.



Mae'n anodd mesur y porthiant gweddilliol a gymerir ar fferm gan y byddai'n rhaid mesur faint o gynnwys sych y mae pob anifail yn ei gymryd yn fanwl. Felly rhaid datblygu dull mesur yn ei le y gellir ei ddefnyddio yn ymarferol, boed hynny yn werth bridio tybiedig genynnol (GEBV) neu nodwedd ffenotypig.

Nodweddion genynnol:

- Archwiliwyd geneteg FE yn yr anifail ar sail y dystiolaeth bod gallu anifail i dreulio yn cael effaith ar FE. Trwy ddadansoddi 4,900 o wartheg mewn tair gwlad wahanol, amcangyfrifir bod y gallu i etifeddu RFI ar tua 0.17. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod RFI yn nodwedd gymharol sefydlog ac felly ei fod yn addas i'w gynnwys mewn rhaglen

fridio. Gyda datblygiad dethol genomig ar sail marcwyr SNP yn ymwneud ag effeithlonrwydd porthiant, gall dewis ar gyfer y nodwedd gael ei gryfhau yn ymarferol.

- Mae prosiect pum mlynedd sy'n cael ei ariannu gan Innovate-UK ar hyn o bryd yn gweithio i ddatblygu gwerthoedd bridio tybiedig i wartheg Stabiliser ar sail effeithlonrwydd porthiant net. Er mwyn gallu pennu FE net mae'r prosiect yn cynnwys mesur y porthiant a gymerir yn gywir a'r cynnydd mewn pwysau byw mewn gwartheg unigol.

Nodweddion ffenotipig:

- Mae anifeiliaid cnoi cil angen y boblogaeth fibrobaid yn y rwmn i helpu i dorri eu diet naturiol i lawr. Cred ymchwilwyr bod rhai microbiomau yn fwy effeithlon nag eraill, yn wir canfu astudiaeth ddiweddar bod gallu treulio yn cyfrif am hyd at 31% o'r amrywiad mewn RFI mewn gwartheg llaeth pan fyddant ar ddieta llawn ffibr, ond nad oedd yn cael unrhyw effaith mewn diet llawn starts. Canfu astudiaethau hefyd bod proffil fibrobaid y rwmn yn gysylltiedig ag RFI mewn gwartheg bîff. Dylid hefyd ystyried newidynnau eraill a all effeithio ar y microbiom yn y rwmn, gan gynnwys oedran yr anifail, rhywogaeth, iechyd a defnydd o wrthfotig.
- Yn y rwmn, mae is-set o ficro-organebau sy'n cynhyrchu methan, a elwir yn methanogennau. Cysylltir cynhyrchu methan ag aneffeithlonrwydd, gan fod angen egni

i'w gynhyrchu yn y rwmn. Felly, mae anifeiliaid mwy effeithlon o ran egni yn gollwng 20-26% yn llai o fethan na'u cymheiriaid aneffeithlon. Dangoswyd bod gan wartheg aneffeithlon boblogaeth lai amrywiol o fethanogennau.

Yn olaf, mae ymchwilwyr yn gweithio i ddatblygu offeryn ffenotipig hawdd ei ddefnyddio i ddynodi anifeiliaid sy'n effeithlon o ran porthiant. Mae gwaith o'r fath wedi canolbwyntio ar fiofarwyr, allyriadau ac ymddygiad, e.e. dangoswyd bod heffrod gydag effeithlonrwydd porthiant uwch yn bwyta am gyfnod hwy. Yn ddelfrydol dylai'r ymchwil edrych ar nodweddion ffenotipig o'r fath a chysylltu hyn yn ôl a bioleg effeithlonrwydd porthiant yn yr anifail. Mae gwaith yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth yn gwneud yn union hynny. Mae'r prosiect yn ceisio gwerthuso dulliau sy'n bodoli o amcangyfrif y porthiant y bydd defaid yn ei gymryd a chysylltu'r lefelau cynyddol o borthiant a gymerir yn ôl â microbiom y rwmn. Mae ymchwil i effeithlonrwydd bwyd cyn belled wedi canolbwyntio yn bennaf ar wartheg, ac felly mae angen yr astudiaeth yn IBERS ar gyfer y diwydiant defaid.

I gloi, mae Gwerth Bridio Tybiedig Effeithlonrwydd porthiant beth ffordd o ddod yn ffaith i ffermwyr seilio eu dewis o stoc arno yn ymarferol ond byddai gwneud dethol ar sail effeithlonrwydd porthiant yn haws ei gyflawni ar lefel fferm yn ei gwneud yn haws i gynnwys effeithlonrwydd porthiant fel amcan bridio mewn systemau i gil gnowyr.

Dysgu sgiliau plygu perthi newydd

O fis Hydref 2018 mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cefnogaeth 80% ar gyfer cwblhau cyrsiau plygu perthi ymarferol.

Mae perthi yn rhan bwysig o unrhyw dirlun; maent yn diffinio terfynau, yn rhoi cysgod, ac maent o fudd i fywyd gwylt, felly, er mwyn cyflawni'r rôl hon mae'n bwysig iddynt gael eu plannu yn briodol gan sicrhau eu bod yn tyfu yn gryf ac yn goroesi.

Bydd y cyrsiau plygu perthi yn trafod pynciau'n ymwneud â'r canlynol:

- Iechyd a diogelwch
- Offer
- Rhywogaethau a daeareg perthi
- Arddangosfa ac ymarfer cychwynnol
- Arddangosfa ac ymarfer



Ar ôl gorffen y cwrs byddwch yn gallu:

- Gofalu a chynnal a chadw offer plygu perthi.
- Bod yn ymwybodol o'r angen am y gweithdrefnau diogelwch cywir.
- Cyflawni arferion plygu perthi sylfaenol sy'n addas i'r arddull lleol.
- Cyflawni gwaith cynnal a chadw sylfaenol ar y perthi.

Mae'r cyfnod ymgeisio nesaf am gyllid yn agor ar ddydd Llun 1 Hydref am 4 wythnos a dyma'r amser gorau i ymgeisio am gyllid ar gyfer y cwrs hwn gan y bydd y cyrsiau yn ddelfrydol yn rhedeg rhwng cwmp y dail (Tachwedd) a chyn i'r blagur agor (Mawrth).

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn siaradwch ag un o'n Darparwyr Hyfforddiant, mae manylion cyswllt ein holl ddarparwyr a gwybodaeth am gyrsiau eraill y mae Cyswllt Ffermio yn eu cefnogi i'w gweld ar y wefan.

Rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio a llunio Cynllun Datblygu Personol cyn cyflwyno cais am arian yn ystod cyfnod ymgeisio. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio ar y wefan <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/hyfforddiant-wyneb-yn-wyneb>

Fel arall cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth ar 08456 000813 am ragor o wybodaeth.



Tyfu coed o hadau

Geraint Jones, Swyddog Technegol Coedwigaeth, Cyswllt Ffermio

Weithiau mae'n anodd dychmygu bod y coed a welwn yng nghefn gwlad Cymru wedi cychwyn o hadau bach. Yn hanesyddol byddai tirfeddianwyr wedi plannu coed wedi eu tyfu o hadau fyddai wedi cael eu casglu yn lleol. Ond, mae llawer o'r coed a blennir yng Nghymru bob blwyddyn erbyn hyn wedi cael eu tyfu yn fasnachol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig neu ar gyfandir Ewrop.

Mae'r egwyddor bod coed a dyfir o stoc lleol, y cyfeirir atynt fel hadau cynhenid, yn fwy tebygol o fod yn fwy addas ac addasu i amodau lleol h.y. pridd, hinsawdd a phatrymau tymhorol yr un mor wir heddiw ag y bu erioed. Ond mae ymwybyddiaeth gynyddol o broblemau newid hinsawdd wedi achosi angen i sicrhau bod coed a choedwigoedd mor wydn â phosibl ac yn gallu addasu i newidiadau hinsawdd.

Mae'r bygythiad cynyddol i'n coetiroedd oherwydd plâu ac afiechydon a'r pryder am nifer gynyddol o ymosodiadau newydd a difrifol yn symptom sy'n debygol o gael ei waethgu gan newid hinsawdd. Er mwyn sicrhau bod coetir a choed mor wydn â phosibl i ymosodiadau o'r fath rhaid i ni ehangu sylfaen genynnol ac amrywiaeth coetiroedd newydd trwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o rywogaethau, a chynyddu'r nifer o ffynonellau hadau a ddefnyddir. Trwy dyfu eich coed eich hun mae gennych yr hyblygrwydd i ddewis y ffynhonnell tra gall casgliadau hadau o ardaloedd eraill gynnig cyfleoedd am rywogaethau gwahanol o well ansawdd neu fod mwy o'r hadau ar gael. Gydag ychydig o wybodaeth sylfaenol, ychydig o greadigrwydd a dyfalbarhad bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu tyfu coed a llwyni cynhenid o hadau a gasglwyd yn lleol.

Trwy dyfu ystod fwy amrywiol o goed a llwyni cynhenid o ffynhonnell hadau a ddynodwyd bydd y ffermwyr a'r tirfeddianwyr yn gallu sicrhau bod y coed a blennir y rhai mwyaf addas i'r tywydd yn lleol ac yn cyfrannu at seilwaith gwyrdd cadarn a gwydn gan sicrhau llawer o fanteision i berfformiad amgylcheddol y fferm.

Am ragor o wybodaeth am dyfu coed o hadau gallwch gysylltu â: Geraint Jones, Swyddog Technegol Coedwigaeth 07398178698 neu Geraint.jones@menterabusnes.co.uk





EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

Ymchwiliad i effaith systemau cynhyrchu llaeth cyferbyniol yng Ngorllewin Cymru ar broffil asid brasterog llaeth (omega-3 a 6 yn arbennig)

Nid yw'r corff dynol yn gallu cynhyrchu'r asidau brasterog omega-6 ac omega-3. Yn anffodus, nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn cael digon o omega-3. Rydym yn dueddol o gael lefelau llawer uwch o omega-6 yn ein diet. Gall y diffyg cydbwysedd hwn mewn asidau brasterog gael effaith negyddol ar ein hiechyd. Gwelwyd bod cynyddu faint o omega-3 yr ydym yn ei gael a chael y cydbwysedd cywir rhwng y ddau yn dod a manteision amrywiol o ran iechyd i'r meddwl a'r corff.

Mae ugain o ffermwyr llaeth o Dde Orllewin Cymru wedi dod at ei gilydd i ymchwilio a yw eu systemau cynhyrchu llaeth yn cynnwys lefelau gwerthfawr o omega-3. Eu nod yw dynodi pa arferion rheoli ar sail porfa sy'n cynhyrchu'r lefelau uchaf o asid brasterog. Gallai'r canlyniadau roi cyfle i ffermwyr llaeth ystyried y dewisiadau ar sail porthiant o gynhyrchu llaeth gyda lefelau uwch o omega-3. Gallai hyn roi mantais wrth farchnata heb fynd i'r gost ychwanegol o ychwanegu ategolion at eu porthiant. Mae'r grŵp yn cyflenwi eu llaeth i nifer o wahanol brynwyr a phroseswyr llaeth. Mae potensial i'r defnyddwyr llaeth yma i gyd fanteisio ar ganlyniadau'r prosiect trwy farchnata eu cynnyrch am eu cynnwys omega-3 uchel.

Yn y flwyddyn gyntaf bydd pob fferm yn darparu samplau tanc llaeth a phorthiant i'r prosiect 24 mis. Bydd y samplau yn cael eu profi am eu proffil asid brasterog gan roi pwyslais arbennig ar omega-3 ac omega-6. Bydd samplau o borthiant hefyd yn cael eu casglu o'r 20 fferm yn fisol, wedi eu cysylltu â'r sampl o laeth tancer bylc. Archwiliir pedair system gynhyrchu llaeth, pob un yn cynnwys pum ffermwr yn cynrychioli pob math o system gynhyrchu. Y systemau cynhyrchu yw:

- **Confensiynol Dan do yn y gaeaf / allan yr haf**
- **Buchesi sydd dan do trwy'r flwyddyn**
- **Buchesi organig**
- **Buchesi sy'n lloea mewn bloc yn y gwanwyn**

Yn ystod ail flwyddyn y prosiect, bydd yr un broses o samplu llaeth a phorthiant ag ym mlwyddyn 1 yn parhau. Rhoddir mwy o bwyslais ar brofi dognau pan fydd systemau yn cynhyrchu lefelau uwch o asidau brasterog omega-3 i roi rhagor o wybodaeth am y maeth i'r ffwch sy'n cynhyrchu'r lefelau gorau.

Rhannwch eich syniadau am brosiect gyda ni!

Rydym ni'n dal i chwilio am syniadau eraill ar gyfer prosiectau. Gyda chyllid o hyd at £40,000 ar gael ar gyfer prosiectau a all bara dros uchafswm o 3 blynedd, mae EIP Cymru yn gyfle gwych i ffermwyr a choedwigwyr roi eu syniadau ar waith, a phrofi technolegau, cynnyrch neu dechnegau newydd.

Anfonwch e-bost at eipwales@menterabusnes.co.uk neu ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio am ragor o fanylion.

Rhoi malwod ar y fwydlen gyda'r Gyfnewidfa Rheolaeth!

Oni bai am don wres bob yn awr ac yn y man fel yr un diweddar, gallwn ddibynnu ar dywydd Cymru i gynnig yr amodau llaith, glawog sy'n berffaith ar gyfer malwod. Ffaith y mae'r rhan fwyaf o arddwyr yn ymwybodol iawn ohoni!

Ond, diolch i raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio, mae Richard Hughes, ffermwr bîff a defaid, yn gobeithio y gallai ei gynnig i fridio malwod bwytadwy y tu allan ar ei fferm ger Pwllheli arwain at ffrwd incwm proffidiol.



Mae Richard, sy'n ffermio ym Mhenfras Uchaf, Llwyndyrys ger Pwllheli, newydd ddychwelyd o Gyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio yn Cherasco yn yr Eidal ble bu'n mynychu cwrs a gynhaliwyd gan Istituto Internazionale di Elicicoltura, sef academi bridio malwod sy'n adnabyddus yn rhyngwladol.

"Gydag ansicrwydd Brexit a grantiau amaethyddol, mae angen i ni ystyried pob math o fentrau arallgyfeirio er mwyn diogelu dyfodol fferm y teulu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol," dywedodd Richard.

"Roeddwn i wedi gwneud rhywfaint o waith ymchwil ar ôl bod ar wyliau yn Ffrainc ble mae malwod, neu 'escargot', sy'n uchel mewn protein ond yn isel mewn calorïau ar gael ar fwydlen bron pob bwyty, ac roeddwn i'n eithaf hyderus bod cyfle i greu menter falwod lwyddiannus yma yng Nghymru, oherwydd yr hinsawdd yn bennaf."

"Un o fy nghamau nesaf fydd ymgeisio am gyngor cynllunio rheoli maetholion sydd ar gael drwy Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio i samplu'r pridd ar y llain sydd bellach wedi'i neilltuo ar gyfer y fenter malwod, ac yna gwrteithio a glanhau'r pridd i sicrhau nad oes modd i bryfed effeithio ar y trigolion newydd," meddai Richard.

Yn ystod ei ymweliad i Cherasco, dysgodd Richard a grŵp bychan o fyfyrwyr rhyngwladol sut i adeiladu 'ffens' allanol a fyddai'n rhwystro creaduriaid eraill fel llygod rhag aflonyddu'r malwod yn cadw malwod 'gwyllt' allan hefyd.

"Mae pob ardal yn cael ei rhannu'n ddau, 40% ar gyfer bridio a 60% ar gyfer tyfu/pesgi. Byddwn yn hau meillion gwyn ar ochr y gorlan yn y lle cyntaf, ac yna ysgall y meirch, betys neu gnydau bresych gaeaf megis ysgallddail gyda'r hau cyntaf yn digwydd ym mis Mawrth (ardal fridio 40%) a'r gweddill ym mis Gorffennaf – mae'n ddieta maen nhw'n ei fwynhau ac mae'n cynhyrchu malwod o ansawdd uchel."

Dywedodd Richard fod ganddo nifer o brynwyr ar gael yn dilyn cysylltiadau a wnaeth ar ei ymweliad i Cherasco, sy'n awyddus iddo ddechrau ei raglen fridio gan fod y galw ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad, ond nid y malwod yn unig sydd â'r potensial i wneud elw.

Mae llysnafedd malwod yn llawn maetholion sydd â phriodweddau gwrth-heneiddio, a gyda'r offer priodol mae modd ei gasglu, ei storio a'i werthu i gynhyrchwyr colur. Gellir 'cynaeafu' poteli o wyau malwod a'u gwerthu fel 'caviar' malwod tra bod y malwod eu hunain yn medru cael eu gwerthu fel bwyd i nadroedd ac ymlusgiaid eraill.

"Roedd hi'n amlwg fod y gwaith yn Cherasco yn creu marchnad i ymwelwyr gan fod twristiaid a grwpiau o blant ysgol lleol sy'n awyddus i gael profiad angyffredin, a phobl o bob cwr sydd eisiau dysgu am ffermio malwod yn cael eu denu yno.

"Mae Cherasco a'r ardal yn enwog ledled y byd am y "Slow Food Movement". Mae wedi dod yn enwog am ei gynnyrch arbenigol ac rwy'n meddwl y byddai'n bosib hyrwyddo fferm falwod i ymwelwyr sydd eisiau dysgu rhywbeth sy'n hwyl ac yn ddiddorol, ac yn hollol wahanol yma yng Nghymru."



Gallwch ddarllen adroddiad Richard ar dudalennau'r Gyfnewidfa Rheolaeth ar wefan Cyswllt Ffermio – www.llyw.cymru/cyswlltffermio. Os oes gennych chi syniad busnes newydd neu os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth ynglŷn â phwnc penodol drwy gymryd rhan mewn taith gyfnewid gyda gwlad arall o fewn yr UE, cysylltwch â ni heddiw.

Mae'r ffenestr mynegi diddordeb ar gyfer Cyfnewidfa Rheolaeth 2019 ar agor ar y 1af o Hydref.

“Dechreuwch y sgwrs, mae'n werth ei chael” - Ymgyrch Cyswllt Ffermio yn helpu busnesau drwy'r broses o gynllunio olyniaeth

Mewn byd delfrydol, byddai'r genhedlaeth hŷn yn trafod eu cynlluniau ar gyfer dyfodol y busnes fferm yn agored gydag aelodau eraill y teulu. Byddent yn “dechrau'r sgwrs” ymhell cyn i drafodaeth o'r fath fod yn angenrheidiol.

Yn anffodus, nid yw hyn yn digwydd bob amser, ac mae hynny'n arwain at oblygiadau difrifol i deuluoedd a ffermydd yng Nghymru, yn ôl Einir Davies, rheolwr mentora a datblygu gyda Menter a Busnes, sy'n darparu Cyswllt Ffermio ar ran Llywodraeth Cymru.

“Y bygythiad mwyaf i nifer o fusnesau fferm yng Nghymru yw diffyg cynllun olyniaeth gadarn, a dyna pam y mae Cyswllt Ffermio wedi lansio ymgyrch olyniaeth newydd yn ystod fforwm Merched mewn Amaeth yn ddiweddar ym Mangor Is-Coed ac wedi ymrwmo i sicrhau ei fod yn bwnc trafod o amgylch bwrdd y gegin eleni,” meddai Ms Davies.

Mae'r ymgyrch newydd, “Dechreuwch y Sgwrs, mae'n werth ei chael” yn cynnwys cyfres o wasanaethau cefnogi a chanllawiau ar gyfer cynllunio olyniaeth a fydd yn cynorthwyo teuluoedd i ganfod ffordd o gynnal trafodaethau sy'n aml yn heriol ac yn anodd.

“Mae busnesau nad ydynt yn cynllunio ymlaen llaw mewn perygl o wynebu goblygiadau difrifol iawn ar gyfer y teulu a'r fferm gan amrywio o anghydfod teuluol a cholli cartrefi a bywoliaeth i sefyllfeydd ariannol anffafriol a'r effaith ar bawb pe byddai angen gwerthu, chwalu neu rannu'r fferm deuluol.

“Bydd cynllunio olyniaeth yn mynd i'r afael â sut a phryd y dylid trosglwyddo asedau i'r genhedlaeth nesaf, gan gynnwys eu paratoi ar gyfer y dyfodol a throsglwyddo cyfrifoldeb hefyd,” meddai Ms Davies.

Cam cyntaf ar gyfer y rhai sydd eisiau gwybod pryd y dylent ofyn am gyngor a chan bwy yw derbyn copi o lyfryn cynllunio olyniaeth Cyswllt Ffermio. Mae'r llyfryn A4 hwn yn hawdd i'w ddefnyddio, ac mae'n amlinellu'r gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael i helpu teuluoedd baratoi ar gyfer y trafodaethau pwysig sydd angen eu cynnal. Mae hefyd yn cynnwys 'pecyn adnoddau cynllunio olyniaeth' sy'n darparu templedi sy'n galluogi ffermwyr i drafod a chofnodi'r ffeithiau, barn a nodau pob aelod o'r teulu, gan arbed amser gwerthfawr cyn

cysylltu â'u harbenigwyr proffesiynol eu hunain. Gallwch gael copi gan eich swyddog datblygu lleol neu o unrhyw sioe amaethyddol.

Bydd yr ymgyrch newydd yn cyfeirio teuluoedd fferm at dîm o fentoriaid 'olyniaeth' sydd newydd eu penodi i ymuno â rhaglen fentora lwyddiannus Cyswllt Ffermio sydd wedi'i hariannu'n llawn. Gall ffermwyr cymwys ymgeisio am hyd at 22.5 awr o gyngor annibynnol, diduedd a chyfrinachol wedi'i ariannu'n llawn gan fentor sydd â phrofiad perthnasol neu ddealltwriaeth o gynllunio olyniaeth. Cymerwch olwg ar y cyfeirlyfr mentoriaid ar lein sydd hefyd yn cynnwys mentoriaid gyda phrofiad mewn nifer o feysydd busnes a thechnegol, gan gynnwys mentrau arallgyfeirio arbenigol, ynghyd ag arbenigwyr diogelwch fferm. Bydd system hidlo yn eich cynorthwyo i ganfod y mentro gyda'r sgiliau a'r wybodaeth sydd arnoch ei angen cyn ymgeisio ar gyfer y gwasanaeth.

Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn trefnu cymorthfeydd olyniaeth ble gall ffermwyr cymwys drefnu cyfarfod un i un wedi'i ariannu'n llawn gyda chyfreithiwr gwledig arbenigol.

Byddwch yn derbyn crynodeb o'ch cyfarfod, ac yna gallwch drafod gyda'ch cynghorydd proffesiynol eich hun," meddai Ms Davies, ac ychwanegodd y gall unrhyw deuluoedd sydd angen cefnogaeth bellach gyda chynllunio busnes strategol, gallant dderbyn cyllid o hyd at 80% trwy Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio.

Am ragor o fanylion ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael i'ch cynorthwyo i ddechrau eich sgwrs, cysylltwch â'ch swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol neu ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio



*"Dechreuwch y sgwrs,
mae'n werth ei chael"*

FARMING
cymru
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Cynllunio olyniaeth
...diogelu dyfodol eich busnes fferm



#dechreuwchysgwrs

Cysylltiadau defnyddiol

Addington
Fund

01926 620 135

British Cattle
Movement Service
(BCMS)

0345 050 3456

Quality Welsh
Food
Certification Body

01970 636 688

Llinell
Gymorth TB

0800 496 1439

Asiantaeth Iechyd
Anifeiliaid a
Phlanhigion (APHA)

0300 303 8268

EID Cymru

01970 636 959

Royal Agricultural
Benevolent
Institution (RABI)

0808 281 9490

The Farming
Community
Network (FCN)

03000 111 999

Tir Dewi
(Sir Gâr,
Ceredigion
a Sir Benfro)

0800 121 4722

Arolwg Canfod
Moch Daear
Marw

01970 612374

Cyfoeth Naturiol
Cymru (CNC)

0300 065 3000

Canolfan Gyswilt
Cwsmeiriaid ar
gyfer Taliadau
Gwledig Cymru

0300 062 5004

Canolfan
Milfeddygaeth
Cymru

01970 612 374

Amserlen Digwyddiadau

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
08/10/18 19:30 - 21:30	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru -Brexit â'n tir	Stadiwm Liberty Stadium, Abertawe/ Swansea, SA1 2FA	Cyswllt Ffermio - 08456 000 813
09/10/18 19:30 - 21:00	Gwaredu John's o'ch buches	Elephant & Castle, Drenewydd/ Newtown, SY16 2BQ	Gwion Parry - 01248 660373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
09/10/18 19:30 - 21:30	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru -Brexit â'n tir	Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun/Ruthin, LL15 1EG	Cyswllt Ffermio - 08456 000 813
10/10/18 19:30 - 21:30	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru -Brexit â'n tir	Ysgol David Hughes, Porthaethwy/ Menai Bridge, LL59 5SS	Cyswllt Ffermio - 08456 000 813
10/10/18 19:30 - 21:00	Gwaredu John's o'ch buches	The Halfway Inn, Nantgaredig, SA32 7NL	Gwion Parry - 01248 660373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
11/10/18 19:30 - 21:30	Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru -Brexit â'n tir - Ar thema Coetir/Coedwigaeth	Pafiliwn Rhyngwladol/International Pavilion, Maes Y Sioe Frenhinol/Royal Welsh Showground, LD2 3SY	Cyswllt Ffermio - 08456 000 813
23/10/18 13:00 -16.00	Byddwch yn ddiogel wrth weithio o fewn coedwigoedd ar y fferm	Bryn Isa, Llanefydd, LL16 5EU	Geraint Jones - 07398178698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk
24/10/18 11:00-13.00	O'r Llo i Lloia	Coleg Lllyfasi, Rhuthun/Ruthin. LL15 2LB	Rhys Davies - 07985379880 rhys.davies@menterabusnes.co.uk
24/10/18 13:00 - 16.00	Achub bywydau a bywoliaeth	IBERS, Gogerddan, Aberystwyth, SY23 3EE	Cyswllt Ffermio - 08456 000 813
25/10/18 13:00 - 16.00	Achub bywydau a bywoliaeth	Great Tre-rhew Farm, Llanwytherin/ Llanvetherine, NP7 8RA	Cyswllt Ffermio - 08456 000 813
29/10/18 14:00 - 16.00	Bety's porthiant:Y cynhyrchiant uchafol o'r tyfu i'r pori	Trefnant Hall, Berriew, Y Trallwng/ Welshpool, Powys, SY21 8AS	Lisa Roberts - 07399 849 148 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk
31/10/18 11:00-14:30	Effaithlonrwydd gwresogi wrth sychu coed tan mewn ciln.	Fan Farm, Myddfai, Llandoverly, SA20 0QB	Geraint Jones - 07398178698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk
01/11/18 19:30 -21.30	Cloffni Gwartheg	Clwb Rygbi Nant Conwy, Llanrwst , Conwy, LL26 0PW	Gwion Parry - 01248 660373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
05/11/18 19:30 -21:30	Cloffni Gwartheg	The Crooked Horn, Holywell , Flintshire, CH8 8AX	Gwion Parry - 01248 660373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
07/11/18 13:30 - 15:30	Yn dod i arfer â ffrwythlondeb pridd	Llysun, Llanerfyl, Y Trallwng/ Welshpool, SY21 0EL	Lisa Roberts - 07399 849 148 lisa.roberts@menterabusnes.co.uk
07/11/18 11:00-14:30	Defnydd biomass wrth reoli gwrychoedd	Plas Y Cerdin, Llangynin, SA33 4LE	Geraint Jones - 07398178698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk
08/11/18 19.30 -21.30	Cloffni Gwartheg	Knighthon Community Centre, Knighthon , Powys, LD7 1DR	Gwion Parry - 01248 660373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
13/11/18 19:30 - 21.30	Cloffni Gwartheg	St Mary's Golf Club, St Mary's Hill, , Pencoed, Bridgend, CF35 5EA	Gwion Parry - 01248 660373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
14/11/18 19:30 - 21.30	Cloffni Gwartheg	Newcastle Emlyn RFC , Newcastle Emlyn , Carmarthenshire, SA38 9AZ	Gwion Parry - 01248 660373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk
14/11/18 19:00 - 21.00	Buddion coed o fewn unedau cynhyrchu wyau maes	Rhug Estate, Corwen, LL21 0EH	Geraint Jones - 07398178698 geraint.jones@menterabusnes.co.uk
15/11/18 13:30 - 16.00	Symud tuag at ddiogelu dyfodol menter cig eidion ar Fferm Newton	Newtown Farm, Scethrog, Aberhonddu/Brecon, LD3 7YG	Menna Williams-07399600146 menna.williams@menterabusnes.co.uk
20/11/18 19:30 - 21.30	Cloffni Gwartheg	Haverfordwest RFC, Haverfordwest, Pembrokeshire, SA61 1LY	Gwion Parry - 01248 660373 gwion.parry@menterabusnes.co.uk